# Cefnogi Pobl Gwent
# Cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (Chwarterol)

1.00pm - 3.30pm, dydd Mawrth 07 Gorffennaf 2015

Ystafell Fwrdd Melin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ

**Yn bresennol (aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol):**

Chris Edmunds, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cydlynydd Rhaglen Mewn Un Lle
Chris Robinson, Cyngor Sir Fynwy, Comisiynydd Arweiniol - Sicrhau Ansawdd a Chefnogi Pobl
Darren Daniel, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Rheolwr Tîm
Elke Winton, CBS Torfaen, Rheolwr Grŵp Tai (Cadeirydd)
Julia Osmond, Iechyd y Cyhoedd, Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd
Kath Moore, Gwalia, Rheolwr Rhanbarthol, Dirprwy Gynrychiolydd Darparwyr
Neil Binnell, MHA, Rheolwr Cymorth Tai, Cynrychiolydd Darparwyr
Neil Taylor, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
Nigel Stannard, CS Casnewydd, Rheolwr Cefnogi Pobl
Rhian Stone, Solas, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynrychiolydd Darparwyr (Is-Gadeirydd)
Richard Sheahan, Linc Cymru, Cynrychiolydd CCC
Sam Lewis, Llamau, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth y Dwyrain, Cynrychiolydd Darparwyr

**Swyddogion Cefnogol yn bresennol:**

Angela Lee, Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent (Cofnodion)
Beth Covill, Cefnogi Pobl Torfaen, Rheolwr Cefnogi Pobl Dros Dro
Steve Lynch, Llywodraeth Cymru, Rheolwr Llywodraethu Cefnogi Pobl
Malcolm Topping, Cefnogi Pobl Caerffili, Rheolwr Cefnogi Pobl
Michelle Church, Cefnogi Pobl Blaenau Gwent, Rheolwr Cefnogi Pobl
Trudy Griffin, Cefnogi Pobl Sir Fynwy, Uwch Swyddog Comisiynu

**Ymddiheuriadau:**

Alyson Hoskins, CBS Blaenau Gwent, Rheolwr Gwasanaethau
Christine Rutson, United Welsh, Cynrychiolydd CCC
Donna Lemin, Llywodraeth Cymru, Rheolwr Llywodraethu ac Achredu Cefnogi Pobl
Simon Rose, Cefnogi Pobl Casnewydd, Rheolwr Anghenion Tai
Viv Daye, CBS Caerffili, Rheolwr Gwasanaethau

| | Eitem/Trafodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd Elke Winton bawb i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent a gwnaed cyflwyniadau. Croesawodd EW Chris Edmunds i'r cyfarfod a fydd yn cymryd lle Bobby Bolt fel Cynrychiolydd Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y Pwyllgor.<br><br>**Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Alyson Hoskins, Chris Rutson, Donna Lemin, Simon Rose a Viv Daye. | |
| **2.** | **Materion Cyffredinol**<br><br>**Cofnodion/Materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (21/04/2015)**<br>Cytunwyd ar y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol.  Camau gweithredu nas gweithredwyd o'r cofnodion blaenorol:<br><br>• **Cofnodion/Materion sy'n Codi o gyfarfod (24/04/2014):** Eitem 6 - DL i roi cyflwyniad i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ar y data canlyniadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn: Hysbysodd DL y Pwyllgor fod angen iddo ystyried y wybodaeth yr hoffai iddi gael ei chyflwyno ac y gellid trafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol*: Trafodwyd sut mae canlyniadau Gwent yn cymharu â rhanbarthau ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill fel opsiwn ar gyfer diweddariad a throsolwg o'r data canlyniadau a ddychwelwyd at Lywodraeth Cymru*<br>• **Cofnodion/Materion sy'n codi o gyfarfod (21/04/15):** Eitem 8 - Canlyniadau: Gwybodaeth gan ddarparwyr.  Cynrychiolwyr darparwyr i gyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Data Canlyniadau: *Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi'i anfon at y grŵp data*<br><br>**Datganiadau o unrhyw wrthdaro buddiannau**<br>Atgoffodd EW yr aelodau bod angen datgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r agenda.  Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.<br><br>Atgoffodd EW y grŵp bod angen i bob aelod o'r RCC gwblhau ffurflenni datgan buddiannau blynyddol a'u cadw gan yr RDC.<br><br>**Cam Gweithredu: AL i ddosbarthu copi electronig i aelodau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod i'w gwblhau**<br><br>**Etholiadau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd**<br>Yn y cyfarfod blaenorol ym mis Ebrill roedd y Pwyllgor wedi cytuno i gynnal yr etholiadau pan fyddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith. Nododd SL bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru o hyd ac nid oedd yn gallu dweud pryd y byddai'n barod. Cytunwyd bod | A<br><br>B<br><br>C |

<table>
<tr><td></td><td>angen cynnal etholiadau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd er mwyn rhoi cyfle i aelodau eraill a chytunwyd y cynhelid yr etholiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref er mwyn caniatáu peth amser ychwanegol i orffen y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.<br><br>Cam Gweithredu: Rhoi'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref<br><br>Etholiadau Cynrychiolwyr Darparwyr/ Landlordiaid<br><br>Cytunwyd yn genedlaethol y câi etholiadau cynrychiolwyr landlordiaid ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eu cynnal yn yr hydref a'u gwasanaethu gan Cartrefi Cymunedol Cymru ac y câi etholiadau cynrychiolwyr darparwyr eu cynnal y gwanwyn nesaf a'u gwasanaethu gan Cymorth Cymru.</td><td>D</td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Sefyllfa ariannol yn erbyn cyllideb<br><br>➢ Alldroeon y chwarter olaf Ionawr 2015 - Mawrth 2015<br>Hysbysodd AL y Pwyllgor fod alldroeon y chwarter olaf wedi'u coladu a chaent eu hanfon at aelodau pleidleisio RCC y Pwyllgor i graffu arnynt. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau pleidleisio ar gyllideb Ebrill 2014 - Ebrill 2015<br><br>Cam Gweithredu: Aelodau pleidleisio RCC i gymeradwyo alldroeon y chwarter 4<br><br>➢ Alldroeon y chwarter cyntaf Ebrill 2015 - Mehefin 2015<br>Hysbysodd AL y Pwyllgor y câi alldroeon y chwarter cyntaf eu coladu a'u hanfon at aelodau pleidleisio er gwybodaeth o fewn y pedair i chwe wythnos nesaf.<br><br>Cam Gweithredu: Anfon alldroeon y chwarter cyntaf Ebrill 2015 - Mehefin 2015 at aelodau pleidleisio RCC er gwybodaeth</td><td>E<br><br>F</td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Gwybodaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru:<br><br>Darparwyd papur diweddaru i'r pwyllgor ac fe'i nodwyd yn y cofnodion hyn.<br><br>Cadarnhaodd SL y câi'r yr adroddiad pobl hŷn cenedlaethol ei gyhoeddi ar ôl yr haf. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ailgynnull y grŵp gorchwyl a gorffen pobl hŷn er mwyn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad.<br><br>Cam Gweithredu: Ailgynnull y grŵp gorchwyl a gorffen pan gyhoeddir yr adroddiad.<br><br>Amserlen fframwaith canlyniadau: bydd angen ystyried terfynau amser i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer darparwyr os rhagwelir y bydd y fframwaith newydd yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2016.<br><br>Cam Gweithredu: SL i godi hyn gyda Donna Lemin yn Llywodraeth Cymru</td><td>G<br><br>H</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Y Bil Rhentu Cartrefi:<br><br>Cyhoeddir diweddariadau ynghylch y Bil yn fuan.<br><br>Nododd DD bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer staff llinell flaen CRC yn ystod mis Gorffennaf.<br><br>Trafodwyd y diffiniad o agored i niwed a'r potensial y gallai hwn gael ei ddehongli'n wahanol gan Awdurdodau Lleol. Hysbysodd EW y Pwyllgor fod datganiadau dros dro ar wefan pob awdurdod lleol yn darparu trosolwg o sut y caiff bwriad ei fabwysiadu o ran digartrefedd o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>**Cam Gweithredu: Bydd MC yn mynychu gweithgor Strategaeth Digartref ar 8 Gorffennaf a bydd yn codi'r mater hwn gyda'r grŵp.** | I |
| **5.** | **Adroddiad Adborth RCP Llywodraeth Cymru**<br><br>Cafwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Comisiynu Rhanbarthol Gwent a chafodd y gwaith caled a wnaed gan y Pwyllgor a'r RDC ei gydnabod gan EW a'i nodi yn y cofnodion hyn.<br><br>Cytunwyd mai'r adran gwannaf oedd tystiolaeth ymgynghori a'r gobaith yw y bydd datblygiad y wefan yn helpu i gryfhau'r opsiynau ymgynghori sydd ar gael i'r RCC. | |
| **6.** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarparwyr**<br><br>Cynhaliwyd Fforwm Darparwyr Rhanbarthol Gwent (RPF) yr wythnos ddiwethaf. Rhoddwyd trosolwg o waith y Grŵp Data Canlyniadau Cefnogi Pobl (SPODG) i'r fforwm. Darparwyd manylion cyswllt cynrychiolwyr darparwyr sy'n aelodau o'r grŵp data i'r fforwm i wella cyfraniad barn darparwyr i SPODG.<br><br>Trafodwyd hefyd dynnu gwaharddiad dros dro o 48 awr ar gyfer tai â chymorth o'r Bil Rhentu Cartrefi ac fe'i nodwyd fel pryder gan aelodau'r fforwm.<br><br>Bu nifer o randdeiliaid o Went yn bresennol yn nigwyddiad “Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl” y Senedd. Cynhelir digwyddiad Cymorth pellach yn Ne Cymru'r wythnos hon a fydd yn edrych ar asedau yn seiliedig ar gryfder.<br><br>Rhoddwyd y diweddaraf i'r RPF am ddatganoli cyfrifoldeb i ranbarthau o ran cydgysylltu strategol cam-drin domestig gan Rebecca Haycock, Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig.<br><br>Nodwyd bod colli fforymau cam-drin domestig lleol yn golygu ei fod bellach yn anodd i ddarparwyr gyfarfod er mwyn trafod materion cam-drin domestig a'r gobaith yw unwaith y bydd y tîm rhanbarthol wedi'i benodi'n llawn ac wedi'i ymgorffori y bydd cyfarfodydd lleol yn dechrau unwaith eto.<br><br>Rhoddodd NT y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith Partneriaeth Gwent Mwy Diogel - partneriaeth o randdeiliaid ym maes Diogelwch Cymunedol sy'n cwrdd bob chwarter i ystyried y rhaglenni a darpariaeth ranbarthol sydd ar waith ledled Gwent. Rhoddir ystyriaeth i arian wedi'i gyfuno i wella prosesau | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflawni ac mae rhanbartholi cyfrifoldeb o ran cymorth cam-drin domestig yn un o ystyriaethau'r bartneriaeth. Caiff Cefnogi Pobl ei gynrychioli ar y bartneriaeth drwy bresenoldeb Cadeirydd yr RCC a DD a HH.<br><br>**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Landlordiaid**<br><br>Nid oes unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u cynnal gyda landlordiaid preifat; ond fel cynrychiolwyr landlordiaid RCC bydd angen parhau i gynnal y rhain fel sy'n ofynnol.<br><br>Mae'r adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi sy'n cynghori cael gwared â'r gwaharddiad 48 awr dros dro yn achosi pryder oherwydd bod hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan landlordiaid i ddiogelu tenantiaid eraill o fewn tai â chymorth ac mae eu pryderon wedi cael eu bwydo i ymgynghoriad y Bil Rhentu Cartrefi.<br><br>Mae effeithiau cyflwyno diwygiadau lles hefyd yn achosi pryder.<br><br>Cynhelir Fforwm Gwasanaeth Tai â Chymorth ar 15 Gorffennaf. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am yr RCC gan gynrychiolwyr yn y cyfarfod hwn. Bydd Support Solutions yn mynychu'r cyfarfod nesaf. | |
| **7.** | **Y wybodaeth Ddiweddaraf gan yr Awdurdodau Lleol**<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Datblygiadau: Mae ein cynllun tai â chymorth presennol ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi symud yn ddiweddar o Lynebwy i adeilad newydd ym Mlaenau. Mae'r cynllun wedi cael ei ailenwi yn Nhŷ Garfield (ar ôl defnyddiwr gwasanaeth blaenorol). Gofal yw'r darparwr cymorth a chroesewir ymweliadau â'r prosiect.<br><br>Mae symud y cynllun tai â chymorth ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi golygu bod yr adeilad gwreiddiol (ar gyfer y cynllun) bellach ar gael. Mae Blaenau Gwent yn gweithio mewn partneriaeth â Gwalia a Chymdeithas Tai Unedig Cymru (UWHA) i adleoli ein cynllun tai â chymorth i bobl ifanc i'r adeilad hwn sydd mewn lleoliad canolog sy'n golygu y bydd gan bobl ifanc yn y prosiect fynediad gwell at drafnidiaeth a chyfleusterau addysg.<br><br>Bu cyfarfod o'r grŵp cynllunio Cefnogi Pobl bythefnos yn ôl a ffocws y cyfarfod oedd toriadau i'r gyllideb a rheoli'r rhain dros y ddwy flynedd nesaf. Cytunwyd ar egwyddorion yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yn yr RCC y llynedd. Mae'r ddogfen “Gwent Allowable Activities” sydd wedi'i diweddaru'n ddiweddar wedi cael ei defnyddio fel adnodd comisiynu defnyddiol. Byddant yn gweithio gyda thoriad o 10% i'r gyllideb i gynllunio ar gyfer toriadau yn y dyfodol ac yn ystyried amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys aildendro, ailfodelu ac ailgomisiynu os yw'n berthnasol.<br><br>Gwasanaethau Pobl Hŷn: mae tri o'r pedwar darparwyr ym Mlaenau Gwent bellach yn darparu gwasanaethau yn seiliedig ar angen ac nid deiliadaeth. Rhagwelir y bydd pob un o'r pedwar darparwr yn gweithredu argymhellion Aylward erbyn mis Ebrill 2016. Mae dau o'r darparwyr hyn bellach wedi derbyn contractau rhanbarthol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd adborth gan randdeiliaid Blaenau Gwent yn gadarnhaol iawn am y digwyddiad mapio anghenion rhanbarthol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd darparwyr yn gallu cwrdd, trafod a rhannu arfer gorau hefyd.<br><br>**Torfaen**<br>Mae dau adolygiad mawr o wasanaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.<br><br>Roedd adborth ar gyfer y mapio anghenion rhanbarthol hefyd yn gadarnhaol iawn gan ddarparwyr sy'n gweithio yn Nhorfaen. Cynhaliwyd diwrnod mapio anghenion i Ddefnyddwyr Gwasanaethau hefyd yn ddiweddar ac mae ymatebion ac adborth yn cael eu coladu ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r grŵp cynllunio Cefnogi Pobl lleol yn cynnal diwrnod cynllunio estynedig ar 14 Gorffennaf.<br><br>Mae'r prosiect ymchwil gyda Gofal a gomisiynwyd yn ddiweddar i edrych ar anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n ddibynnol ar alcohol a darpariaeth bresennol yn y maes hwn wedi'i gyhoeddi a thrafodir yr argymhellion gyda'r grŵp cynllunio a'r RCC.<br><br>Mae BC yn gweithio'n agos gydag Emma Davies yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i fapio ffrydiau ariannu trechu tlodi ledled Torfaen ac mae'r gwaith hwn wedi'i rannu gyda chydweithwyr yn y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (SPIN). Cytunwyd y caiff y templed a ddefnyddir yn Nhorfaen ei ddefnyddio i fapio'r holl ffrydiau ariannu trechu tlodi ledled Gwent.<br><br>Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i opsiynau modelu ariannol o hyd at ostyngiad o 10% mewn cyllideb.<br><br>Trafodwyd y pwyslais mawr ar y cysylltiadau a'r synergeddau rhwng y pedair menter trechu tlodi: Cefnogi Pobl, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg gan y Pwyllgor a'r cynnydd a wneir ledled Gwent i feithrin cysylltiadau agosach â'r ffrydiau ariannu eraill hyn.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>**Cytunwyd y dylid gwahodd cydweithwyr i fynychu cyfarfod RCC yn y dyfodol i gyflwyno trosolwg o'r ffrwd arian y maent yn ei gynrychioli.**<br><br>**Cytunwyd hefyd i gyd-ethol cynrychiolydd o Cymunedau yn Gyntaf / Teuluoedd yn Gyntaf i'r Pwyllgor.**<br><br>**Caerffili**<br><br>Cytunwyd ar arbedion gostyngiad cyllidebol, gyda'r rhan fwyaf yn dod o LD a gwasanaethau Larwm. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i nodi arbedion ar gyfer 2016/17<br><br>Datblygiadau: mae prosiect 18 uned newydd wedi agor yn ddiweddar yn Ystrad Mynach ac mae cynllun 13 uned pellach yn Rhymni wedi'i gynllunio. Ar hyn o bryd dim ond 4 o bobl sy'n byw mewn llety gwely a brecwast, y nifer isaf am nifer o flynyddoedd a'r gobaith yw y bydd y prosiectau newydd hyn yn diwallu anghenion y rhai sy'n wynebu digartrefedd gan leihau'r angen i ddefnyddio llety | J<br><br>K |

gwely a brecwast yn y dyfodol.

Mae prosiect anghenion cymhleth cam-drin domestig rhanbarthol yn datblygu ac mae cyd-drafodaethau i brynu tir yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Mae tri gwasanaeth cymorth hyblyg wedi cael eu haildendro'n ddiweddar oherwydd bod contractau wedi dod i ben. Nododd MT fod y broses hon wedi arwain at gostau ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau newydd gan dynnu sylw at y ffaith nad yw aildendro bob amser yn arwain at bris contract is.

Tendr ar y cyd â Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer prosiect cyngor dyled ac arian; mae'r tendr cyntaf ar y cyd yng Nghymru yn dangos manteision cydweithio. Mae contract dwy flynedd wedi'i gyflwyno, yn ogystal ag ymgorffori prosiect Cam-drin Domestig Teuluoedd yn Gyntaf o fewn contract cymorth hyblyg Cefnogi Pobl.

L

**Cam Gweithredu: rhannu arfer gorau o'r prosiectau hyn gyda'r RCC**

Rhoddwyd DVD o'r ffilm "Unusual Suspects" i aelodau'r RCC a gafodd ei ddatblygu gydag arian gwobr o £1000 a enillodd y tîm Cefnogi Pobl yn ddiweddar. Mae'r ffilm hon yn amlygu'r effeithiau y gall benthycwyr arian diegwyddor eu cael ar gymunedau; Caerffili sydd â'r nifer fwyaf ond un o achosion yng Nghymru. Cafodd y ffilm ei lansio'n ddiweddar yn y Coed Duon a'i dangos am y tro cyntaf yno a bu nifer o swyddogion o Lywodraeth Cymru, Uned Benthyg Arian yn Anghyfreithlon Cymru ac Aelodau Cynulliad, y Maer a swyddogion lleol eraill yn ogystal â thîm Cefnogi Pobl Caerffili.

Gellir hefyd wylio'r ffilm ar Youtube drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://www.youtube.com/results?search_query=caerphilly+unusual++suspects

**Sir Fynwy**

Ar hyn o bryd maent yn ystyried y strategaeth gostwng cyllideb ac yn ystyried rhesymoli contractau a gwasanaethau.

Cafodd fforwm gweithwyr cymorth ei sefydlu yn ddiweddar i rannu arfer gorau ymhlith gweithwyr. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn a chytunwyd y dylai'r fforwm barhau a chael ei reoli yn y dyfodol gan y rhai sy'n mynychu'r cyfarfod.

Mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant bron â'i gwblhau a bydd yr adroddiad terfynol yn barod yn fuan. Caiff yr argymhellion o'r adroddiad hwn eu defnyddio i lunio'r Cynllun Comisiynu Lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Caiff 'Mon Talks' (sy'n dilyn fformat tebyg i 'TED talks' - ffilmiau byrion sy'n cael eu ffrydio ar Youtube) ei ddefnyddio ledled yr awdurdod a chaiff ei ystyried fel fformat i amlygu buddiannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae'r agenda trechu tlodi yn cael ei hystyried ledled Sir Fynwy ac mae lle Cefnogi Pobl wrthi'n cael ei adolygu - a ddylai Cefnogi Pobl fod o dan Trechu Tlodi yn hytrach nag o fewn adrannau Gofal Cymdeithasol neu adrannau Tai yr awdurdod lleol.

| | | |
|---|---|---|
| | Cwblhawyd archwiliad llawn o alldroeon cyllideb y chwarter olaf ar gyfer Cefnogi Pobl Ebrill 2014 - Ebrill 2015 yn Sir Fynwy.<br><br>Mae'n debygol y caiff cymorth ychwanegol ar gyfer y tîm ei ddarparu yn fuan er mwyn helpu gyda'r swyddogaeth monitro.<br><br>Datblygiadau newydd: mae gweithiwr pontio Pobl Ifanc wedi'i gomisiynu a bydd yn dechrau ym mis Awst.<br><br>Mae Cymorth i Ferched Sir Fynwy a Cymorth i Ferched Torfaen wedi uno'n ddiweddar ac oherwydd hyn bydd gweithiwr argyfwng cam-drin domestig bellach yn gwasanaethu Sir Fynwy.<br><br>Mae grŵp cynllunio lleol yn ystyried yr agenda trechu tlodi ar gyfer cyfarfod yr hydref.<br><br>**Casnewydd**<br><br>Mae adolygiad lefel uchel Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau. Roedd yn brofiad cadarnhaol a disgwylir adroddiad gydag argymhellion yn fuan.<br><br>Mae opsiynau modelu gostwng cyllideb yn cael eu hystyried ar gyfer 5%, 7.5% a 10% gan efelychu proses debyg y llynedd.<br><br>Mae ychydig o adolygiadau o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda rhaglen i gwblhau naw cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a dilyn cynlluniau gweithredu 14 o brosiectau eraill.<br><br>Mae cyfarfodydd partneriaeth pedair i chwe wythnos wedi'u sefydlu â darparwyr i edrych ar atgyfeirio, rhestrau aros, gwrthodiadau, cyfraddau defnydd, ffigurau trosiant, lleoedd gwag, materion staffio, datblygiadau darparwyr cymorth a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau posibl ar gam cynnar yn hytrach na gadael iddynt fynd yn broblemau gwaeth. Bydd hefyd yn golygu y bydd gwerthusiadau gwasanaeth llawn yn cymryd llai o amser i ddarparwyr a staff tîm Cefnogi Pobl o ganlyniad i gael y cyfarfodydd cydymffurfiaeth contract wedi'u targedu hyn.<br><br>Comisiynwyd tri chynllun newydd gydag arian baich newydd digartrefedd gan gynnwys gweithiwr PREP i weithio gydag unigolion sy'n gadael y carchar, gweithiwr ymyriadau teuluol ychwanegol gyda Phrosiect FIP Gwent presennol a swyddog cefnogaeth digartrefedd a phorth.<br><br>Mae'r Cynllun Comisiynu Lleol wedi dechrau cael ei ddatblygu gyda phwyslais ar yr agenda trechu tlodi.<br><br>Mae gweithiwr traws-awdurdod Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ariannu'n rhannol (wedi'i ariannu ar y cyd â Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd) yn defnyddio'r asesiad o anghenion llety sy'n cael ei gynnal mewn awdurdodau lleol er mwyn asesu anghenion cymorth Sipsiwn a Theithwyr hefyd.<br><br>Cynhaliwyd diwrnod ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau ac roedd 20+ o ddefnyddwyr gwasanaethau yn bresennol, cafwyd adborth da sy'n cael ei goladu ar hyn o bryd, ynghyd â gwybodaeth o ddigwyddiad ymgynghori â darparwyr Gwent, er mwyn llywio'r blaenoriaethau comisiynu o fewn y Cynllun | |

<table>
<tr><td></td><td>Comisiynu Lleol.<br><br>Mae adolygiad iechyd meddwl darparwyr cymorth landlordiaid preifat sy'n darparu llety ar gyfer 65 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaol bron â'i gwblhau. Amcangyfrifir na fyddai o leiaf 75% o'r rheini sy'n cael cymorth drwy'r prosiect yn gallu ymdopi gyda byw yn annibynnol a byddai llawer yn defnyddio Ysbyty (Iechyd Meddwl) Sant Cadog os nad oedd y prosiectau hyn ar gael. Mae pob atgyfeiriad at y tai prosiect yn dod o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.<br><br>Hysbysodd CE y pwyllgor bod pwysau bellach ar wasanaethau iechyd i asesu anghenion llety a chymorth yn llawer mwy manwl; gyda'r bwriad o sefydlu llwybr mwy cadarn. Cydnabuwyd y dylai presenoldeb CE yn yr RCC helpu gyda thrafodaethau a broceriaeth rhwng yr RCC a'r Rhaglen Mewn Un Lle a bod datblygu cyfleoedd cyllid ar y cyd yn rhywbeth y dylai'r ddau ei ystyried yn y dyfodol.<br><br>Camau Gweithredu:<br><br>NS a CE i gyfarfod i drafod cysylltiadau i'w datblygu rhwng gwasanaethau Cefnogi Pobl ac iechyd yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu<br><br>Adroddiad rhaglen Mewn Un Lle i'w ddosbarthu i'r RCC<br><br>Hysbysodd DD y Pwyllgor ac Arweinwyr Cefnogi Pobl y byddai'r bobl ganlynol o'r Gwasanaeth Prawf bellach yn mynychu cyfarfodydd y grŵp cynllunio lleol perthnasol:<br><br>Rob Nicholls - Blaenau Gwent<br>Lucy Jones - Caerffili<br>Darren Daniel - Casnewydd/Torfaen ac RCC<br>Michelle Allford/Alan Davies - Sir Fynwy<br>Diana Binding - SPNAB<br><br>Trafododd y pwyllgor yr effaith y gallai toriadau yn y dyfodol ei chael ar ansefydlogi gwasanaethau a chytunwyd mai hyn ddylai fod yn brif ffocws agenda'r RCC ar gyfer cyfarfod mis Hydref.<br><br>Cam Gweithredu: toriadau cyllideb ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref.<br><br>Adroddiad digwyddiad mapio anghenion<br><br>Rhoddwyd adroddiad i'r pwyllgor yn rhoi trosolwg o'r digwyddiad mapio anghenion rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Mehefin i'w nodi yn y cofnodion. Bydd gwybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiad yn bwydo i mewn i'r fframwaith cynllunio strategol cynhwysol i lywio'r cynlluniau comisiynu lleol a rhanbarthol ar gyfer 2016/2017.</td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>M<br><br><br>N<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>O</td></tr>
<tr><td>8.</td><td>Adroddiad ar Gynnydd yr RDC<br><br>I'w nodi yn y cofnodion.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Cydnabuwyd bod yr RCC wedi rhoi ymateb manwl i bapur toriadau SPNAB gyda phryder mawr bod diffyg tegwch a chynllunio strategol yn yr opsiynau presennol sy'n cael eu hystyried ar gyfer toriadau cyllidebol yn y dyfodol. Mae'r opsiwn sy'n cael ei ystyried a'i amlinellu ar hyn o bryd yn yr adroddiad yn cynnig toriad unffurf i awdurdodau lleol ledled Cymru a rhoi terfyn ar ailddosbarthu grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.<br><br>Diolchodd EW i'r pwyllgor am ei gyfraniad a'i sylwadau. | |
| **9.** | **Cynnydd cynllun gwaith RCC 2014 - 2015**<br><br>**Cynllun gwaith diwygiedig RCC 2015 - 2016**<br><br>Rhoddwyd cynllun gwaith diwygiedig i'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu.<br><br>Mae cynllun gwaith diwygiedig wedi'i ddrafftio gan ddefnyddio gwybodaeth o'r sesiynau datblygu diweddar. Cytunwyd y dylai aelodau ystyried yr hyn sydd yn y cynllun gwaith a rhoi sylwadau i AL.<br><br>**Camau Gweithredu**<br><br>**AL i ddosbarthu'r papurau o'r sesiynau datblygu**<br><br>**Anfon sylwadau a diwygiadau at AL i ddiweddaru a chwblhau cynllun eleni.**<br><br>Nododd CRob Adroddiad Blynyddol Creu Cymunedau Cryf sydd wedi'i gyhoeddi<br><br>**Cam Gweithredu: AL i ddosbarthu** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>P<br><br>Q<br><br><br><br>R |
| **10.** | **Adolygiad Blynyddol RCC**<br><br>Bydd aelodau o'r Grŵp Llywodraethu yn adolygu holl Adolygiadau Blynyddol yr RCC ac yn cyflwyno papur i gyfarfod yr SPNAB. Disgwylir adborth ar yr Adroddiad Blynyddol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. | |
| **11.** | **Rhoi tystiolaeth o fuddiannau'r rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent.**<br><br>➢ **Grŵp Cyfathrebu - astudiaeth achos o ddefnyddiwr gwasanaeth**<br>Rhoddwyd drafft amlinellol o'r astudiaeth achos i'r Pwyllgor a'r testun ar gyfer y llyfryn. Gofynnir i aelodau anfon unrhyw sylwadau yn ôl at y grŵp Cyfathrebu.<br>Nodwyd y bydd angen cyfeirio at fuddiannau o ran costau yn glir a nodi bod unrhyw fuddiannau o ran costau yn yr astudiaethau achos yn cyfeirio at gostau amcangyfrifedig y costau atal i wasanaethau statudol eraill.<br><br>**Cam Gweithredu: Dosbarthu'r pum astudiaeth achos a thestun i aelodau er mwyn cael sylwadau arnynt**<br><br>➢ Taenlen sicrhau'r incwm mwyaf / lleihau dyled | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>S |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam Gweithredu: Y wybodaeth ddiweddaraf i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf** | T |
| **12.** | **Cyflwyno adroddiadau ar is-grwpiau Cynllun gwaith yr RCC**<br><br>➢ **Anableddau Dysgu:** Rhoddwyd copi o'r ddogfen 'Gwent Allowable Activities' a gafodd ei diweddaru'n ddiweddar i aelodau. Nodwyd bod y ddogfen yn adnodd comisiynu defnyddiol. Mae hefyd yn ddefnyddiol i roi trosolwg o'r math o wasanaethau y mae Cefnogi Pobl yn eu cyllido i randdeiliaid eraill.<br>Mae'r adroddiad anableddau dysgu yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.<br>➢ **Is-grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau:** mae gwefan ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei datblygu. Mae'r Ffatri Gelf yn gweithio ar rai drafftiau a rhagwelir y caiff grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau eu casglu at ei gilydd i gytuno ar gynnwys y wefan ac i brofi ac adolygu'r wefan. | |
| **13.** | **Unrhyw fater arall**<br>➢ **Bydd gweithdy i helpu i roi'r cynllun gweithredu ar gyfer y digartref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed ar waith:** yn cael ei gynnal ddydd Iau 9 Gorffennaf.<br>➢ Mae darpariaeth gofal iechyd deintyddol ar gyfer cleientiaid Cynlluniau Gweithredu ar Iechyd grwpiau Digartref ac Agored i Niwed wedi'i sefydlu yng Nghasnewydd; a disgwylir darpariaeth debyg ar gyfer Tredegar.<br>➢ Mae Iechyd y Cyhoedd wedi bod yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth 'The Voice' o Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent i baratoi Taflen Wybodaeth Iechyd y Geg.<br>➢ Caiff llwybr iechyd digartref ei ddatblygu ar gyfer Gwent ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i fodelau eraill gan gynnwys y model sydd ar waith ar hyn o bryd yn Abertawe.<br>➢ Lansiwyd gwasanaethau Consortiwm ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau GDAS<br>➢ Rhoddwyd y diweddaraf am y gwrthweithydd opiad Naloxone a all atal defnyddwyr opiadau rhag cymryd dos gormodol gyda'r cyngor bod rhaglen hyfforddi genedlaethol bellach ar gael yng Nghymru sy'n caniatáu i unrhyw un roi Nalozone at ddiben achub bywyd unwaith y bydd wedi'i hyfforddi. Mae manylion pellach ar gael gan JO. | |
| | Dyddiad/amser y cyfarfod nesaf: 7 Hydref 2015, 1.00pm<br><br>**Ystafell Fwrdd Melin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ** | |

# Cefnogi Pobl Gwent
# Cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (Chwarterol)

1.00pm - 3.30pm, dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2015

Ystafell Fwrdd Melin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ

**Camau Gweithredu'r Cyfarfod**

| Cam Gweithredu | Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Cam Gweithredu | I'w gwblhau gan |
|---|---|---|---|
| A | 2 | • **Cofnodion/Materion sy'n Codi o gyfarfod (24/04/2014):** Eitem 6 - DL i roi cyflwyniad i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ar y data canlyniadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn: Hysbysodd DL y Pwyllgor fod angen iddo ystyried y wybodaeth yr hoffai iddi gael ei chyflwyno ac y gellid trafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol*: Trafodwyd sut mae canlyniadau Gwent yn cymharu â rhanbarthau ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill fel opsiwn ar gyfer diweddariad a throsolwg o'r data canlyniadau a ddychwelwyd at Lywodraeth Cymru* | DL |
| B | 2 | • **Cofnodion/Materion sy'n codi o gyfarfod (21/04/15):** Eitem 8 - Canlyniadau: Gwybodaeth gan ddarparwyr. Cynrychiolwyr darparwyr i gyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Data Canlyniadau: *Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi'i anfon at y grŵp data* | DL |
| C | 2 | AL i ddosbarthu copi electronig o'r ffurflen Datgan Buddiannau i aelodau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod i'w gwblhau | AL |
| D | 2 | Rhoi etholiadau cadeirydd ac is-gadeirydd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref. | AL |
| E | 3 | Aelodau pleidleisio RCC i gymeradwyo alldroeon y chwarter 4 | Aelodau'r RCC sy'n pleidleisio |
| F | 3 | Anfon alldroeon y chwarter cyntaf Ebrill 2015 - Mehefin 2015 at aelodau pleidleisio RCC er gwybodaeth | AL |
| G | 4 | Ailgynnull y grŵp gorchwyl a gorffen Pobl Hŷn pan gyhoeddir yr adroddiad. | AL/ OP Grŵp Gorchwyl a Gorffen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| H | 4 | | Codi gofynion hyfforddi canlyniadau ar gyfer darparwyr gyda Donna Lemin yn Llywodraeth Cymru fel rhan o'r amserlen i roi'r fframwaith canlyniadau newydd ar waith ym mis Ebrill 2016. | SL |
| I | 4 | | Codi amrywiad yn y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn dehongli'r diffiniad o agored i niwed yn y gweithgor Strategaeth Digartref ar 8 Gorffennaf. | MC |
| J | 4 | | Cytunwyd y dylid gwahodd cydweithwyr i fynychu cyfarfodydd RCC yn y dyfodol i gyflwyno trosolwg o'r ffrwd arian y maent yn ei gynrychioli. | Arweinwyr Cefnogi Pobl/AL |
| K | 4 | | Trafod cyfethol cynrychiolydd o Cymunedau yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf i'r Pwyllgor gyda chydweithwyr o'r ardaloedd hyn. | Arweinwyr Cefnogi Pobl/AL |
| H | 4 | | Rhannu arfer gorau o brosiectau Caerffili a Teuluoedd yn Gyntaf a ariennir ar y cyd â'r RCC | MT |
| M | 4 | | NS a CE i gyfarfod i drafod cysylltiadau i'w datblygu rhwng gwasanaethau Cefnogi Pobl ac iechyd yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu | NS/CE |
| J | 4 | | Adroddiad rhaglen Mewn Un Lle i'w ddosbarthu i'r RCC | CE |
| O | 4 | | Toriadau cyllideb ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref | AL |
| P | 9 | | AL i ddosbarthu'r papurau o'r sesiynau datblygu | AL |
| Q | 9 | | Sylwadau am y cynllun gwaith a diwygiadau iddo i'w hanfon at AL | AL |
| R | 9 | | Dosbarthu Adroddiad Blynyddol Creu Cymunedau Cryf i'r RCC | AL |
| S | 11 | | Dosbarthu'r pum astudiaeth achos a thestun i aelodau er mwyn cael sylwadau arnynt | AL |
| T | 11 | | Taenlen ddiweddaraf ar sicrhau'r incwm mwyaf / lleihau dyled i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf | MT / Arweinwyr Cefnogi Pobl |